Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Welsh Government Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer arbed ynni

Drwy ddilyn y camau syml hyn o amgylch y cartref, gallwch gadw'n glud ac arbed arian ar eich biliau ynni.

Golchi ar 30°C

Os byddwch yn gosod eich peiriant golchi i olchi ar 30°C yn hytrach na thymheredd uwch, byddwch yn arbed £14 y flwyddyn.

Diffodd y cyfan

Diffoddwch eich goleuadau pan nad ydych yn eu defnyddio. Bydd hyn yn arbed tua £25 y flwyddyn ar eich biliau ynni blynyddol.

Llai o amser yn y gawod

Bydd treulio un funud yn llai yn y gawod bob dydd yn arbed £8 ar eich biliau ynni bob blwyddyn, fesul unigolyn. Gallai cael cawod 4 munud arbed £30 y flwyddyn i chi, fesul unigolyn.

Newid bylbiau golau

Os byddwch yn newid bylbiau gwynias i rai LED, byddwch yn arbed tua £60 y flwyddyn.

Berwi ychydig

Os byddwch yn llenwi'r tegell gyda dim ond y dŵr sydd ei angen arnoch, byddwch yn arbed £11 y flwyddyn.

Cadw'r gwres

Mae ffenestri, drysau a holltau yn yr eiddo yn gadael i wres ddianc o'ch cartref. Mae atal drafftiau yn helpu i arbed tua £45 y flwyddyn ar filiau.

Sychu dillad ar y lein

Gallwch arbed £60 y flwyddyn mewn trydan drwy sychu eich dillad ar y lein yn hytrach na defnyddio peiriant sychu dillad.

Troi'r deial i lawr

Os byddwch yn troi eich thermostat i lawr dim ond 1°C i 21°C, byddwch yn arbed tua £105 y flwyddyn. **Oes amserydd gennych chi?** Trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fyddwch chi gartref.

Dylai thermostatau fod ar y tymheredd isaf sy'n gyfforddus, fel arfer rhwng 18°C a 21°C.

Gwefru

Os byddwch yn diffodd offer electronig, goleuadau a gwefryddion sydd mewn modd segur, neu sydd wedi bod ymlaen ond nad ydynt yn cael eu defnyddio, gallech arbed tua £55 y flwyddyn.



Mae'r arbedion yn seiliedig ar bris nwy o 7.4c/kWh a phris trydan o 28.6c/kWh, ar gyfer tŷ pâr 3 gwely nodweddiadol â gwres nwy. Caiff y datganiadau a'r ystadegau hyn am arbedion eu llunio gan Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ymddiriedolaeth sy'n berchen arnynt. Maent yn gywir yn ôl prisiau ym mis Ionawr 2024.